COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD AR FFURF CYFARFOD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 24 HYDREF 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd y Cyfarfod

| | |
|---|---|
| HJ David | GH Haines |

Yn Rhith-bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| RM Granville | S J Griffiths | M L Hughes | T Thomas |
| A Williams | AJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

F D Bletsoe (Chairperson), RL Penhale-Thomas and E D Winstanley

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Cynghorydd John Spanswick | Arweinydd |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant |
| Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet Cyllid a Pherfformiad |
| Cynghorydd Martyn Jones | Aelod Cabinet Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai |
| Cynghorydd Melanie Jayne Evans | Aelod Cabinet Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| Cynghorydd Paul Davies | Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams | Rheolwr Partneriaethau a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Helen Hammond | Swyddog o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Stephanie Davies | Cynorthwyydd Cefnogi Partneriaethau a Data |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro / Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

Datgan Buddiant

Y Cyng Timothy Thomas – eitem 5 – Personol - Yn gweithio ar bolisi ac ymgyrchoedd ar gyfer asiantiaid eiddo, ac wedi ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddigartrefedd.

## 131. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfynu | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo bod Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, dyddiedig 25 Gorffennaf 2024 a 9 Medi 2024 yn gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Hydref 2024 |

## 132. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Cwm Taf Morgannwg a'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (JOSC)

| | |
|---|---|
| Penderfynu | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor wedi enwebu'r Aelodau a ganlyn i Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Cwm Taf Morgannwg:<br><br>• Cynghorydd Huw David, Cynghorydd Simon Griffiths, a'r Cynghorydd Martin Hughes (enwebiadau o'r Grŵp Llafur). |

| | |
|---|---|
| | • Cynghorydd Tim Thomas (enwebiad o Grŵp Aelodau Annibynnol Sir Pen-y-bont ar Ogwr).<br>• Cynghorydd Alex Williams (enwebiad o Grŵp y Gynghrair Ddemocrataidd); a'r<br>• Cynghorydd Freya Bletsoe (Aelod Dirprwyol a enwebwyd gan Grŵp Aelodau Annibynnol Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fynychu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan na fydd un o'r pum Aelod ar gael). |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Hydref 2024 |

## 133. Monitro Cyllideb 2024-25 - Rhagolygon Refeniw Chwarter 2

| | |
|---|---|
| Penderfynu | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad a thrafod yn fanwl ag Aelod Cabinet a'r Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion a cheisiadau am ragor o wybodaeth, fel a ganlyn:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. Yn ogystal â heriau arferol y gaeaf, mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch effaith bosibl yr aflonyddwch yn Ysbyty Tywysoges Cymru oherwydd gwaith cynnal a chadw hanfodol ar y gwasanaethau cymdeithasol. Yn benodol, mynegwyd pryder ynghylch y pwysau ar y gweithlu gan gynnwys yr amser teithio ychwanegol fydd ei angen a'r pwysau'n gysylltiedig â phenderfyniadau a thalu ffioedd atodol. Roedd y Pwyllgor felly'n **argymell** y dylid monitro'r sefyllfa'n ofalus, a chyflwyno adroddiad, fel bo'n briodol, i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol neu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2.<br><br>2. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y risg y gallai'r diffyg yng nghyllidebau llawer o ysgolion fod yn fwy na 5% y flwyddyn nesaf, gan olygu y bydd hi'n ofynnol iddynt greu cynllun adfer diffyg, gan fod cyllidebau'r ysgolion yn cael eu seilio ar ffigurau eleni, heb roi cyfrif am gynigion dangosol i ostwng y gyllideb ymhellach ar gyfer 2025-26. Gan hynny, **argymhellodd** y Pwyllgor felly y dylai adroddiadau ar y gyllideb o hyn allan gynnwys rhagamcan o ffigurau diffyg yr ysgolion.<br><br>3. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r adroddiad chwarterol newydd gynnwys manylion y camau a gymerwyd gan y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol i ganfod yr holl arbedion gofynnol yn |

| | |
|---|---|
| | gysylltiedig â gwariant a recriwtio gweithwyr dianghenraid.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>4. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol ynghylch sut oedd y Cyngor yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru o ran darparu gwasanaethau, gan gynnwys llety dros dro i'r digartref.<br><br>5. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol am nifer yr unigolion a'r teuluoedd y mae'r Cyngor wedi'u cartrefu mewn llety dros dro.<br><br>6. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol am y trefniadau cyllido a weithredir â sefydliadau partner, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, ar gyfer darparu lleoliadau preswyl a darparu gofal cymdeithasol, ynghyd â'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau cyfraniadau teg gan y sefydliadau hynny. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Hydref 2024 |

## 134. Y Diweddaraf am y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfynu | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad, cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith (BW) yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod. Nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn Atodiad C, D ac E, a'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B:<br><br>1. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y rhagamcan o orwariant sylweddol mewn cymorth dysgu ac anghenion dysgu ychwanegol, a chostau darparu'r trafnidiaeth statudol o'r cartref i'r ysgol yn gysylltiedig â hynny. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 ofyn am adroddiad i archwilio a allai modelau eraill i ddarparu'r gwasanaethau hyn gyfrannu at arbed costau.<br><br>2. Wrth ystyried yr adroddiad Diweddariad Tai a Digartrefedd a amserlenwyd ar gyfer 2 Rhagfyr 2024, |

| | |
|---|---|
| | **argymhellodd** y Pwyllgor y dylai Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 archwilio'r modelau cymorth a gynigir gan awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, ystyried a yw lefel y digartrefedd ac ymagwedd Pen-y-bont ar Ogwr yn debyg, a sut y gellid rhoi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Hydref 2024 |

**135. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfynu | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 24 Hydref 2024 |

I weld y drafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:24.